



Ein cyf/Our ref : RE-585-21

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1NA

14 Medi 2021

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr diweddar i roi gwybod ichi am gyfarfod pedairochrog y Gweinidogion Cyllid ar 20 Gorffennaf, rwy'n ysgrifennu i roi adroddiad cryno ar y trafodaethau a gafwyd.

Cafwyd sgwrs fanwl am eitemau'r agenda, gan gynnwys yr Adolygiad o Wariant a fydd yn digwydd maes o law, yr ymateb i COVID a'r adferiad o'r pandemig, ynghyd â thwf a buddsoddiad economaidd yng Nghymru, a'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd pedairochrog yn y dyfodol.

Bûm yn dal i bwysleisio'r angen i gael sicrwydd cynnar a thryloywder gwell mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol a wneir gan Lywodraeth y DU er mwyn inni allu cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol. Hefyd, fe soniais am sut yr oedd gwarant Barnett wedi bod o gymorth wrth inni wneud gwaith rheoli a chynllunio cyllidebol y llynedd.

Manteisiais ar y cyfle i bwysleisio'r angen i fod yn hyblyg wrth weithredu'r cynlluniau cymorth COVID sydd ar waith ar draws y DU, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gallu parhau i helpu amddiffyn ein heconomiâu a diogelu ein cymunedau. Pwysleisiais hefyd yr angen i wneud y £20 o gredyd cynhwysol ychwanegol yn drefn barhaol.

Ar ôl i'r Canghellor gyhoeddi'r wythnos ddiwethaf y bydd yr Adolygiad o Wariant yn dod i ben ar 27 Hydref, ochr yn ochr â chyllideb yr hydref, rwy'n gofyn am gynnal cyfarfod pedairochrog brys o Weiniogion Cyllid y DU i drafod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.